# Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

## Canllawiau Addysgu
## Uned 9

# UNED 9:
# YMCHWILIO I FATERION CYFOES YM MAES IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU

## Cyflwyniad:

Prif nod y canllawiau unedau hyn yw cefnogi'r broses o addysgu a dysgu ac i fod yn gydymaith i'r Fanyleb. Mae pob un o'r canllawiau unedau yn cynnig esboniad manwl o bwyntiau allweddol yn y Fanyleb gyda'r nod o esbonio meysydd cymhleth o gynnwys y pwnc.

## Rhaglen Astudio:

Mae'r gweithgareddau a ddarperir yma yn awgrymiadau ar gyfer datblygu gwybodaeth dysgwyr yn unig. Mae'n rhaid i bob canolfan benderfynu a yw'r gweithgareddau yn briodol i'w dysgwyr, a chydnabyddir y gall amodau lleol bennu'r dull a fabwysiedir. Er y gall rhai o'r gweithgareddau a awgrymir olygu ymgysylltu â'r sector, noder bod y mwyafrif o'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i gael eu cynnal yn yr ystafell ddosbarth. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth drwy'r profiad y byddant yn ei ennill wrth gyflawni pob gweithgaredd. Mae adborth ffurfiannol hanfodol i'r broses ddysgu, er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ennill y graddau gorau posibl. Mae enghreifftiau o weithgareddau wedi'u rhoi yn y canllawiau hyn sy'n cynnig digon o gyfle i roi adborth ffurfiannol.

## Trosolwg o'r cynnwys:

Mae ymchwil yn agwedd bwysig ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Drwy ymchwilio mae'n bosibl canfod atebion i bethau sy'n anhysbys, llenwi bylchau mewn gwybodaeth, llywio datblygiad deddfwriaeth, polisïau a strategaethau newydd a diwygiedig, a thrawsnewid y ffordd mae gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu gofal.

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn deall yr amrywiaeth o waith ymchwil sy'n digwydd yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, pwy sy'n ymgymryd â'r gwaith hwnnw a sut mae'n cael ei gyflwyno a'i ddefnyddio i wella'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, ac iechyd a llesiant unigolion yng Nghymru.

Bydd dysgwyr yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau i'w galluogi i ymgymryd â'u gwaith ymchwil eilaidd eu hunain i fater cyfoes o'u dewis nhw ac i gyflwyno argymhellion ar gyfer ymchwil pellach.

## Asesiad:

Asesiad di-arholiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflawni eu hymchwil eilaidd eu hunain i fater cyfoes o'u dewis a chyflwyno argymhellion ar gyfer cyflawni gwaith ymchwil pellach.

Bydd tasgau'r asesiad di-arholiad hwn yn aros yr un fath ar gyfer cyfnod oes y fanyleb ac fel y'u cyhoeddir yn y Pecyn Asesu sydd ar gael o wefan ddiogel CBAC.

© WJEC CBAC Cyf

## Enghraifft o raglen astudio ar gyfer Uned 9:
## Ymchwilio i faterion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith cartref |
|---|---|---|---|
| 9.1 Materion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol | Cyflwyno cynnwys yr uned a dulliau asesu.<br><br>Dysgwyr i benderfynu beth yw ystyr y term allweddol 'Materion Cyfoes'<br><br>Dysgwyr i feddwl am amrywiaeth o faterion cyfoes sy'n effeithio ar unigolion yng Nghymru ar hyn o bryd.<br><br>Dysgwyr i lunio map meddwl o wahanol faterion cyfoes sy'n effeithio ar unigolion yng Nghymru, yn eu barn nhw.<br><br>Dysgwyr i gael erthygl newyddion neu wylio adroddiad newyddion am fater cyfoes. | • Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)<br>https://cy.ons.gov.uk/<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>https://icc.gig.cymru/<br>• StatsCymru<br>https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue<br>• Newyddion BBC Cymru<br>https://www.bbc.co.uk/cymrufyw<br>• Wales Online<br>https://www.walesonline.co.uk/<br>• Newyddion ITV Cymru<br>https://www.itv.com/news/wales | CBAC Ar-lein Adnoddau<br><br>Dysgwyr i ymchwilio i faterion cyfoes yng Nghymru<br><br>Dysgwyr i ddod o hyd i erthygl newyddion gyfoes am fater cyfoes yng Nghymru |
| | Dysgwyr i drafod y term allweddol iechyd a llesiant.<br><br>Dysgwyr i drafod beth yw anghenion Corfforol, Deallusol, Ieithyddol, Emosiynol a Chymdeithasol<br>Dysgwyr i ymchwilio i bob mater cyfoes a nodi sut mae'n effeithio ar iechyd a llesiant unigolion (anghenion Corfforol, Deallusol, Ieithyddol, Emosiynol a Chymdeithasol) | • awdurdodau iechyd<br>https://www.llyw.cymru/ymddiriedolaethau-byrddau-iechyd-gig-cymru<br>• awdurdodau lleol<br>Gwasanaethau Cymdeithasol ((siryfflint.gov.uk)<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>https://icc.gig.cymru/ | Dysgwr i lunio poster am effeithiau'r mater cyfoes.<br><br>Dysgwyr i lunio eu hadnodd hawdd ei ddeall eu hunain am y mater cyfoes. |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dysgwyr i gael astudiaeth achos am unigolyn a mater cyfoes a thrafod sut y gallai effeithio arnynt.<br><br>Dysgwyr i ystyried senario am unigolyn a mater cyfoes a thrafod sut y gallai effeithio arnynt. | • Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC/SCW)<br>[Gofal Cymdeithasol Cymru \| Hafan - Gofal Cymdeithasol Cymru]<br>• sefydliadau o'r trydydd sector. | |
| | Dysgwyr i nodi beth yw ystyr y term gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Dysgwyr i lunio map meddwl am ba wasanaethau sy'n dod o dan y gwahanol wasanaethau.<br><br>Dysgwyr i nodi beth yw ystyr y term sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Dysgwyr i nodi ar eu map meddwl pa wasanaethau sy'n dod o dan y gwahanol wasanaethau.<br><br>Dysgwyr i nodi mater cyfoes ac ymchwilio i'r ffordd y mae'n effeithio ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.<br><br>Dysgwyr i ddod o hyd i erthygl newyddion neu wyliau adroddiad newyddion am fater cyfoes a'r ffordd y gallai effeithio ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. | • awdurdodau iechyd<br>https://www.llyw.cymru/ymddiriedolaethau-byrddau-iechyd-gig-cymru<br>• awdurdodau lleol<br>https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Home.aspx<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>https://icc.gig.cymru/<br>• Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC/SCW)<br>https://gofalcymdeithasol.cymru/<br>• sefydliadau o'r trydydd sector.<br>• Newyddion BBC Cymru<br>https://www.bbc.co.uk/cymrufyw<br>• Wales Online<br>WalesOnline: Newyddion, chwaraeon, y tywydd a digwyddiadau o bob rhan o Gymru<br>• Newyddion ITV Cymru<br>https://www.itv.com/news/wales | Dysgwr i ymchwilio i'r ffordd y mae'r mater cyfoes yn effeithio ar y gwasanaethau yng Nghymru.<br><br>Dysgwyr i ddod o hyd i erthygl newyddion gyfoes am y ffordd y mae materion cyfoes yn effeithio ar wasanaethau yng Nghymru. |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith cartref |
|---|---|---|---|
| 9.2 Y defnydd o ymchwil mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Dysgwyr i drafod y term allweddol ymchwil.<br><br>Dysgwyr i drafod pam mae ymchwil yn cael ei gasglu ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.<br><br>Dysgwyr i gwblhau map meddwl o'r ffordd y gellid defnyddio ymchwil mewn iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Dylid dangos ffeithlun, graffiau neu siartiau am fater cyfoes i'r dysgwyr ac yna dylent drafod pam mae'r wybodaeth yn bwysig a sut y gellid ei defnyddio. | • awdurdodau iechyd https://www.llyw.cymru/ymddiriedolaethau-byrddau-iechyd-gig-cymru<br><br>• awdurdodau lleol https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Home.aspx<br><br>• Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) https://cy.ons.gov.uk/<br><br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru https://icc.gig.cymru/<br><br>• Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC/SCW) https://gofalcymdeithasol.cymru/<br><br>• StatsCymru https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue<br><br>• sefydliadau o'r trydydd sector. | CBAC Ar-lein Adnoddau<br><br>Dysgwr i ymchwilio i faterion cyfoes a dod o hyd i ffeithiau ac ystadegau amdanynt. |
| | Dysgwyr i ymchwilio i bwy sy'n casglu gwybodaeth yng Nghymru.<br><br>Dysgwyr i ymchwilio yn unigol/mewn parau/grwpiau i sefydliadau sy'n ymwneud â chynhyrchu a chyhoeddi ymchwil (gan gynnwys data) ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.<br>Pwy ydyn nhw?<br>Nod y sefydliad. | • awdurdodau iechyd https://www.llyw.cymru/ymddiriedolaethau-byrddau-iechyd-gig-cymru<br><br>• awdurdodau lleol https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Home.aspx<br><br>• Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) https://cy.ons.gov.uk/ | CBAC Ar-lein Adnoddau<br><br>Dysgwr i ymchwilio i sefydliadau. |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Y math o ddata y maent yn eu casglu.<br>Sut maent yn defnyddio'r data?<br><br>• awdurdodau iechyd<br>• awdurdodau lleol<br>• Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)<br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC/SCW)<br>• StatsCymru | • Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>https://icc.gig.cymru/<br><br>• Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC/SCW)<br>https://gofalcymdeithasol.cymru/<br><br>• StatsCymru<br>https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue<br><br>• sefydliadau o'r trydydd sector. | Dysgwyr i lunio eu hadnodd hawdd ei ddeall eu hunain am y sefydliad. |
| | Dysgwyr i ymchwilio yn unigol/mewn parau/grwpiau i'r amrywiaeth o waith ymchwil sydd ar gael ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Dysgwr i gael enw menter neu sefydliad sy'n defnyddio data ac yna nodi'r ymchwil sy'n cael ei ddefnyddio.<br><br>• 1000 o Fywydau a Mwy (GIG Cymru) (Gwelliant Cymru erbyn hyn)<br>• Mesurau iechyd a lles ar gyfer plant (Llywodraeth Cymru)<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol: Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth (Llywodraeth Cymru)<br>• Arolwg Cenedlaethol Oedolion Cymru (Llywodraeth Cymru, Ystadegau Cymru) | • 1000 o Fywydau a Mwy (GIG Cymru) (Gwelliant Cymru erbyn hyn)<br>https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwelliant-cymru/amdanom-ni/hanes-ein-taith-a-1000-o-fywydau/<br><br>• Mesurau iechyd a lles ar gyfer plant (Llywodraeth Cymru)<br>Mesurau iechyd a llesiant ar gyfer plant Llywodraeth Cymru \| Deall Cymdeithas<br><br>• Gwasanaethau Cymdeithasol: Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth (Llywodraeth Cymru)<br>Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, 2014-15: dogfen waith \| Rhwydwaith Cyfnewid Ymchwil a Gwybodaeth am Ofalwyr (CAREN) (open.ac.uk) | CBAC Ar-lein Adnoddau.<br><br>Dysgwr i ymchwilio i fenter neu sefydliad.<br><br>Dysgwyr i lunio eu hadnodd hawdd ei ddeall eu hunain am y fenter neu'r sefydliad.<br><br>Dysgwyr i gasglu eu hymchwil eu hunain am y fenter neu'r sefydliad. |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' – Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant yng Nghymru (Llywodraeth Cymru)<br>• Adroddiad Blynyddol Llesiant Cymru (Llywodraeth Cymru)<br>• gwefan GIG Iechyd yng Nghymru<br>• Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru | • Arolwg Cenedlaethol Oedolion Cymru (Llywodraeth Cymru, Ystadegau Cymru)<br>https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru<br>• 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' – Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant yng Nghymru (Llywodraeth Cymru)<br>https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/law-yn-llaw-at-iechyd-meddwl-cynllun-cyflawni-2016-19-adroddiad-cynnydd-hydref-2016-mawrth-2018.pdf<br><br>• Adroddiad Blynyddol Llesiant Cymru (Llywodraeth Cymru)<br>https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2021<br><br>• gwefan GIG Iechyd yng Nghymru<br>https://www.gig.cymru/<br><br>• Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru<br>https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/uned-deallusrwydd-a-gwyliadwriaeth-canser-cymru-wcisu/amdanom-ni/ | |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith cartref |
|---|---|---|---|
| 9.3 Dulliau ymchwil mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Dysgwyr i drafod y termau allweddol ymchwil cynradd ac ymchwil eilaidd.<br><br>Dysgwyr i drafod y gwahaniaeth rhwng ymchwil cynradd ac ymchwil eilaidd.<br><br>Dysgwyr i nodi pa ymchwil sy'n cael ei ystyried yn ymchwil cynradd neu'n ymchwil eilaidd.<br><br>• arbrofion<br>• profion<br>• gwaith maes<br>• grwpiau ffocws<br>• arsylwadau ffurfiol ac anffurfiol<br>• adolygiadau llenyddol, gan gynnwys adolygiadau o lyfrau, erthyglau, astudiaethau achos, cyfnodolion, cyhoeddiadau'r Llywodraeth<br>• holiaduron/arolygon<br>• cyfweliadau strwythuredig ac anstrwythuredig<br>• y defnydd o gronfeydd data ystadegol/ystadegau cyhoeddedig.<br><br>Dysgwyr i drafod y termau allweddol data ansoddol a data meintiol.<br><br>Dysgwyr i drafod y gwahaniaeth rhwng data ansoddol a data meintiol.<br><br>Dysgwyr i gael darn o waith ymchwil a phenderfynu pa fath o ymchwil ydyw. | • awdurdodau iechyd<br><br>https://www.llyw.cymru/ymddiriedolaethau-byrddau-iechyd-gig-cymru<br><br>• awdurdodau lleol<br><br>https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Home.aspx<br><br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>https://icc.gig.cymru/<br><br>• Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC/SCW)<br><br>https://gofalcymdeithasol.cymru/<br><br>• sefydliadau o'r trydydd sector.<br>• Newyddion BBC Cymru<br><br>https://www.bbc.co.uk/cymrufyw<br><br>• Wales Online<br><br>https://www.walesonline.co.uk/<br><br>• Newyddion ITV Cymru<br><br>https://www.itv.com/news/wales | CBAC Ar-lein Adnoddau<br><br>Dysgwr i gasglu ei ymchwil ei hun<br><br>Dysgwyr i lunio eu rhestr wirio eu hunain am sut i gasglu ymchwil<br><br>Dysgwyr i ddod o hyd i erthygl newyddion gyfoes am fater cyfoes. |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dysgwyr i ddod o hyd i'w henghraifft eu hunain o'r mathau gwahanol o waith ymchwil.<br><br>Dysgwyr i gael erthygl newyddion am fater cyfoes a nodi pa fath o waith ymchwil sydd wedi'i gynnwys yn yr erthygl.<br><br>Dysgwyr i gael astudiaeth achos neu senario am fater cyfoes a bydd angen iddynt benderfynu pa ddulliau ymchwil y byddant yn eu defnyddio i gasglu ymchwil. | | |
| | Dysgwyr i drafod y term allweddol methodolegau.<br><br>Dysgwyr i gwblhau map meddwl o fethodolegau ymchwil.<br><br>• arbrofion<br>• profion<br>• gwaith maes<br>• grwpiau ffocws<br>• arsylwadau ffurfiol ac anffurfiol<br>• adolygiadau llenyddol, gan gynnwys adolygiadau o lyfrau, erthyglau, astudiaethau achos, cyfnodolion, cyhoeddiadau'r Llywodraeth<br>• holiaduron/arolygon<br>• cyfweliadau strwythuredig ac anstrwythuredig | • awdurdodau iechyd<br>https://www.llyw.cymru/ymddiriedolaethau-byrddau-iechyd-gig-cymru<br><br>• awdurdodau lleol<br>https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Home.aspx<br><br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>https://icc.gig.cymru/<br><br>• Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC/SCW)<br>https://gofalcymdeithasol.cymru/<br><br>• sefydliadau o'r trydydd sector | CBAC Ar-lein Adnoddau<br><br>Dysgwr i ymchwilio a dod o hyd i'w waith ymchwil ei hun ar gyfer eu project.<br><br>Dysgwyr i lunio eu rhestr wirio ymchwil eu hunain ar gyfer eu project. |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • y defnydd o gronfeydd data ystadegol/ystadegau cyhoeddedig.<br><br>Dysgwyr i gael darn o waith ymchwil a phenderfynu pa fath o ymchwil ydyw.<br><br>Dysgwyr i ddod o hyd i'w henghraifft eu hunain o'r mathau gwahanol o waith ymchwil. | • Newyddion BBC Cymru<br>https://www.bbc.co.uk/cymrufyw<br><br>• Wales Online<br>https://www.walesonline.co.uk/<br><br>• Newyddion ITV Cymru<br>https://www.itv.com/news/wales | |
| | Dysgwyr i drafod manteision ac anfanteision mathau gwahanol o ddulliau ymchwil.<br><br>• arbrofion<br>• profion<br>• gwaith maes<br>• grwpiau ffocws<br>• arsylwadau ffurfiol ac anffurfiol<br>• adolygiadau llenyddol, gan gynnwys adolygiadau o lyfrau, erthyglau, astudiaethau achos, cyfnodolion, cyhoeddiadau'r Llywodraeth<br>• holiaduron/arolygon<br>• cyfweliadau strwythuredig ac anstrwythuredig<br>• y defnydd o gronfeydd data ystadegol/ystadegau cyhoeddedig. | • awdurdodau iechyd<br>https://www.llyw.cymru/ymddiriedolaethau-byrddau-iechyd-gig-cymru<br><br>• awdurdodau lleol<br>https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Home.aspx<br><br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>https://icc.gig.cymru/<br><br>• Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC/SCW)<br>https://gofalcymdeithasol.cymru/<br><br>• sefydliadau o'r trydydd sector.<br>• Newyddion BBC Cymru<br>https://www.bbc.co.uk/cymrufyw | CBAC Ar-lein Adnoddau<br><br>Dysgwr i ymchwilio a dod o hyd i'w waith ymchwil ei hun ar gyfer eu project.<br><br>Dysgwyr i ddod o hyd i erthygl newyddion gyfoes am fater cyfoes.<br><br>Dysgwyr i ddod o hyd i waith ymchwil cyfredol am fater cyfoes. |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Wales Online<br>https://www.walesonline.co.uk/<br><br>• Newyddion ITV Cymru<br>https://www.itv.com/news/wales | |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dysgwyr i drafod y termau a'r ymadroddion allweddol.<br><br>Gellid rhoi darn o waith ymchwil i ddysgwyr er mwyn iddynt werthuso'n feirniadol hygrededd, dibynadwyedd a dilysrwydd ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys data.<br><br>Dysgwyr i ddod o hyd i'w ddarn o waith ymchwil eu hunain er mwyn iddynt werthuso'n feirniadol hygrededd, dibynadwyedd a dilysrwydd ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys data | • awdurdodau iechyd<br>https://www.llyw.cymru/ymddiriedolaethau-byrddau-iechyd-gig-cymru<br><br>• awdurdodau lleol<br>https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Home.aspx<br><br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>https://icc.gig.cymru/<br><br>• Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC/SCW)<br>https://gofalcymdeithasol.cymru/<br><br>• sefydliadau o'r trydydd sector.<br>• Newyddion BBC Cymru<br>https://www.bbc.co.uk/cymrufyw<br><br>• Wales Online<br>https://www.walesonline.co.uk/<br><br>• Newyddion ITV Cymru<br>https://www.itv.com/news/wales | CBAC Ar-lein Adnoddau<br><br>Dysgwr i ymchwilio a dod o hyd i'w waith ymchwil ei hun ar gyfer eu project.<br><br>Dysgwyr i ddod o hyd i erthygl newyddion gyfoes am fater cyfoes.<br><br>Dysgwyr i lunio eu rhestr wirio eu hunain i werthuso'r gwaith ymchwil yn feirniadol. |

© WJEC CBAC Cyf

<table>
<tr><th>Maes Testun</th><th>Gweithgareddau</th><th>Adnoddau</th><th>Gwaith cartref</th></tr>
<tr><td rowspan="2">9.4 Cynllunio ymchwil mewn iechyd a gofal cymdeithasol</td><td>Dysgwyr i gwblhau map meddwl am beth i'w gynnwys mewn cynllun.<br><br>Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch sut i gynllunio ymchwil, gan gynnwys:<br>• darparu sail resymegol glir ar gyfer project sy'n berthnasol i'r sector<br>• pennu nodau ac amcanion priodol a realistig<br><br>Dysgwyr i drafod y termau a'r ymadroddion allweddol.<br><br>Dysgwyr i ymchwilio ymhellach i beth yw sail resymegol.<br><br>Dysgwyr i amlinellu eu nodau a'u hamcanion.</td><td>• Cynllunydd Project<br><br>Cynllunydd Project – i'w Argraffu (cbac.co.,uk)<br><br>Cynllunydd Project y gellir ei Argraffu am Ddim a Thaflenni Trosolwg PDF – Crazy Laura<br>• Sail resymegol<br>Ffyrdd Hawdd o Ysgrifennu Sail Resymegol dros Astudiaeth: 10 Cam (gyda Lluniau) (wikihow.com)<br>• Nodau ac Amcanion<br>Sut i Ysgrifennu Nodau ac Amcanion ar gyfer Eich Project Ymchwil, Eich Traethawd neu'ch Traethawd Ymchwil – YouTube<br><br>Sut i Ysgrifennu'r Nodau a'r Amcanion – Research Prospect</td><td>CBAC Ar-lein Adnoddau<br><br>Dysgwr i lunio cynllun drafft.<br><br>Dysgwyr i lunio eu rhestr wirio eu hunain ar gyfer cynllun eu project.</td></tr>
<tr><td>Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch sut i gynllunio ymchwil, gan gynnwys:<br>• cynllunio dulliau ymchwil priodol a pherthnasol<br>• diffinio blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant<br><br>Dysgwyr i drafod y termau a'r ymadroddion allweddol.</td><td>• Cynllunydd Project<br>Cynllunydd Project – i'w Argraffu (cbac.co.uk)<br>• Dulliau Ymchwil<br>Dulliau Ymchwil | Diffiniadau, Mathau, Enghreifftiau (scribbr.com)</td><td>CBAC Ar-lein Adnoddau<br><br>Dysgwr i lunio cynllun drafft.<br><br>Dysgwyr i lunio eu rhestr wirio eu hunain ar gyfer cynllun eu project.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dysgwyr i benderfynu ar y dulliau ymchwil priodol a pherthnasol y byddant yn eu defnyddio.<br>Dysgwyr i amlinellu blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant eu project. | | |
| | Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch sut i gynllunio ymchwil, gan gynnwys:<br>• sut bydd adnoddau, graddfeydd amser a risgiau posibl yn cael eu rheoli<br>• rheoli a blaenoriaethu gwaith<br><br>Dysgwyr i drafod y termau a'r ymadroddion allweddol.<br><br>Dysgwyr i drafod sut bydd adnoddau, graddfeydd amser a risgiau posibl yn cael eu rheoli.<br><br>Dysgwyr i amlinellu sut y byddant yn rheoli ac yn blaenoriaethu gwaith. | • Cynllunydd Project<br>Cynllunydd Project – i'w Argraffu (cbac.co.uk)<br>• Rheoli Projectau<br>Rheoli Projectau: Amcangyfrifon Amser a Chynllunio (projectsmart.co.uk)<br><br>Beth yw Siart Gantt? [DIFFINIAD AC ENGHRAIFFT] - YouTube<br><br>Templed Siart Gantt am ddim ar gyfer Excel yn 2023 \| Lawrlwytho (instagantt.com) | CBAC Ar-lein Adnoddau<br><br>Dysgwr i lunio cynllun drafft.<br><br>Dysgwyr i lunio eu rhestr wirio eu hunain ar gyfer cynllun eu project. |
| | Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch sut i gynllunio ymchwil, gan gynnwys:<br>• gwneud ystyriaethau moesegol<br>• adnabod tuedd a mantais bosibl<br><br>Dysgwyr i drafod y termau a'r ymadroddion allweddol.<br><br>Dysgwyr i drafod sut y byddant yn sicrhau bod ystyriaethau moesegol yn rhan o'u cynllun. | • Cynllunydd Project<br>Cynllunydd Project – i'w Argraffu (cbac.co.uk)<br>• Moeseg<br>Fframwaith Moeseg Data – GOV.UK (www.gov.uk)<br><br>Pwysigrwydd Moeseg wrth Reoli Projectau (managementstudyguide.com)<br><br>Moeseg – Dulliau Ymchwil – YouTube | CBAC Ar-lein Adnoddau<br><br>Dysgwr i lunio cynllun drafft.<br><br>Dysgwyr i lunio eu rhestr wirio eu hunain ar gyfer cynllun eu project. |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dysgwyr i drafod sut i adnabod tuedd a mantais bosibl yn eu project. | | |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith cartref |
|---|---|---|---|
| 9.5 Cyflawni ymchwil eilaidd i fater cyfoes mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch sut i gyflawni project ymchwil, gan gynnwys:<br>• defnyddio amrywiaeth o adnoddau i gyflawni ymchwil eilaidd<br>• nodi cyfyngiadau'r ymchwil<br>• nodi patrymau a thueddiadau<br>• ffurfio cysylltiadau rhwng gwahanol ffynonellau<br>• dehongli a dadansoddi gwybodaeth a data perthnasol llunio barn ddilys<br>• deall materion moesegol perthnasol<br>• dod i gasgliadau wedi'u rhesymu<br>• cynnig argymhellion priodol.<br><br>Dysgwyr i edrych ar derminoleg ac ymadroddion allweddol a'u hystyr.<br><br>Dysgwyr i ddysgu mwy am bob rhan o'r project ymchwil a thrafod sut y byddant yn helpu i sicrhau llwyddiant y project. | • awdurdodau iechyd<br>https://www.llyw.cymru/ymddiriedolaethau-byrddau-iechyd-gig-cymru<br><br>• awdurdodau lleol<br>https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Home.aspx<br><br>• Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>https://icc.gig.cymru/<br><br>• Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC/SCW)<br>https://gofalcymdeithasol.cymru/<br><br>• sefydliadau o'r trydydd sector.<br>• Newyddion BBC Cymru<br>https://www.bbc.co.uk/cymrufyw<br><br>• Wales Online<br>https://www.walesonline.co.uk/<br><br>• Newyddion ITV Cymru<br>https://www.itv.com/news/wales | CBAC Ar-lein Adnoddau<br><br>Dysgwyr i lunio cynllun drafft ar gyfer eu project.<br><br>Dysgwyr i lunio eu rhestr wirio eu hunain ar gyfer cyflawni eu project. |

© WJEC CBAC Cyf